


# *Syniadau syml ar gyfer twristiaeth gynaliadwy*

Mae dod yn fusnes effeithiol a chynaliadwy'n broses barhaus. Os nad ydych chi'n barod eto i fentro ar ddefnyddio ynni gwynt, hidlo drwy frwyn ayb mae yna lawer o syniadau, llawer symlach i'w gweithredu, sy'n mynd ymhell o ran lleihau effeithiau andwyol gweithgareddau unrhyw fusnes. Ar y daflen hon fe gewch lawer o syniadau o'r fath sy'n addas ar gyfer busnesau twristiaeth ac arlwyo. Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud ydi ***DECHRAU ARNI*** !

***Gosod falfiau thermostat ar reiddiaduron*** – defnyddiwch nhw i greu trefn 'ardaloedd gwres'. Trowch y gwres i lawr mewn ystafelloedd gweigion, gwnewch yn siŵr nad ydi dodrefn yn cuddio'r rheiddiaduron. Peidiwch a gosod tymheredd y thermostat yn rhy uchel, mae costau'n cynyddu 8% am bob 1°C o gynnydd uwch ben 19°C.

***Inswleiddio –*** drwy ychwanegu at y deunydd inswleiddio yn y nenfwd byddwch yn lleihau'r gwres fydd yn cael ei golli drwy do eich tŷ. Mae awyr poeth yn codi ac mae o'n fodlon iawn codi'r holl ffordd trwy eich adeilad ac allan drwy'r to os gadewch chi iddo wneud hynny – a chi fydd wedi talu iddo wneud hynny.

***Tapiau chwistrell a sestonau bach ar gyfer y toiledau*** - mae tapiau chwistrell yn yr ystafell ymolchi'n arbed hyd at 80% o'r dŵr y mae rhywun yn ei ddefnyddio gyda thapiau dŵr traddodiadol. Mae tapiau gyda synhwyrydd neu dapiau gwasgu'n gallu arbed dŵr lle mae tapiau'n debyg o gael eu gadael heb eu troi i ffwrdd. Mewn cartref cyffredin mae toiledau sy'n fflysio'n defnyddio mwy o ddŵr na dim arall. Maen nhw'n gyfrifol am bron i 30% o gyfanswm defnydd dŵr cartrefi'r wlad. Beth am roi bricsen neu ddyfais plastig tebyg i 'hippo' ymhob seston, neu osod toiledau gyda fflys ddeuol?

***Ail ddefnyddio dŵr yn yr ardd -*** defnyddiwch fareli ddal dŵr glaw, neu gosodwch system dŵr pŵl ar gyfer ailddefnyddio dŵr golchi llestri a dŵr rinsio dillad.

***Bylbiau golau ynni isel -*** mae'r rhain i'w cael bellach ym mhob siâp a maint, yn addas ar gyfer pob math o

# *Simple ideas for sustainable tourism*

Becoming an efficient, sustainable business is an ongoing process. If you are not ready for wind power, reed beds, etc. there are many simpler, easy to implement ideas, which go a long way to minimising the impact of your business activities. This fact sheet contains many such ideas for tourist accommodation and catering businesses. All you need do is ***MAKE A START***!

***Fit thermostatic radiator valves*** – use them to implement a 'zoned' heating system. Reduce the heat right down in unoccupied rooms, make sure radiators are not obstructed by furniture. Don't set thermostats too high, costs rise by 8% for every 1oc increase above 19oc

***Increase Insulation -*** reducing the heat loss through the roof of your home. Hot air rises and it will happily and quickly rise up all the way up through your house and out through your roof if you let it – at your expense.

***Fit spray taps and low capacity toilet cisterns*** – spray taps on handbasins typically save up to 80% of the water used with standard pillar taps. Sensor and push taps can save water where taps may be left on. Flush toilets have traditionally represented the largest single use of water in households. They account for around 30% of total domestic water use. Put plastic devices such as a hippos in your cisterns or fit dual flush toilets

***Reuse water in the garden***, install water butts to collect rainwater or consider installing a grey water system to reuse laundry rinse water and kitchen waste water.

***Low energy light bulbs*** now come in a variety of shapes and sizes to suit all kinds of lamps and

lamp a gorchudd lamp, ac yn rhoi arbedion o 60%!

***Mae golau dydd yn rhad ac am ddim*** – cadwch ffenestri a ffenestri to'n lân a pheidiwch â gosod unrhyw beth o'u blaenau nhw fyddai'n rhwystro'r golau rhag dod i'r ystafell.

***Gosodwch amseryddion*** ar offer rheoli gwres a goleuni, a synwyryddion symudiad awtomatig fydd yn sicrhau nad ydi goleuadau'n cael eu gadael ymlaen mewn ystafelloedd gwag a choridorau. Defnyddiwch amserydd neu synhwyrydd goleuni i wneud yn siŵr bod goleuadau allanol wedi eu diffodd yn ystod y dydd.

***Gweithredwch bolisi 'golchi ar gais y gwestai' ar gyfer tyweli***

***Gosodwch degellau bychain ymhob llofft***

***Darparwch daflenni gwybodaeth amgylcheddol*** ar gyfer eich gwesteion yn amlinellu'r hyn yr ydych wedi ei wneud i fod yn fwy cynaliadwy, ac yn gofyn i'ch gwesteion geisio leihau effaith amgylcheddol eu hymweliad.

***Prynwch nwyddau lleol*** - bydd ymwelwyr wrth eu bodd yn cael blasu cynnyrch lleol - mae bwydlen seiliedig ar gynnyrch lleol yn rhywbeth i'w frolio. Mae'r un peth yn wir am nwyddau eraill, nid dim ond bwyd. O swfenîrs a rhoddion i fan bethau a ddefnyddir yn ystafelloedd y gwesteion a'r swyddfa, bydd cynnyrch a gwasanaethau lleol yn fanteisiol mewn sawl ffordd, o ran cyfleustra ac atebolrwydd.

***Prynwch nwyddau sydd wedi eu hailgylchu neu eu cynhyrchu yn ôl egwyddorion amgylchedd-gyfrifol*** – drwy ddefnyddio nwyddau sydd wedi ei hailgylchu neu eu cynhyrchu yn ôl egwyddorion amgylchedd gyfrifol (megis tyweli papur a phapur lle chwech) a'r rheiny wedi eu marcio felly'n glir, byddwch nid yn unig yn cefnogi cynaladwyedd amgylcheddol, ond mi fyddwch hefyd yn dangos i'ch cwsmeriaid eich bod yn gofalu am yr amgylchedd. Mewn byd lle mae ymwelwyr twristaidd yn nodi cyfrifoldeb amgylcheddol fel ystyriaeth o bwys wrth iddyn nhw ddewis eu gwyliau, mae o'n gwneud synnwyr i chi adael i bobl wybod am yr ymdrech yr ydych yn ei wneud.

shades and offer 60% energy savings!

***Daylight is free*** – keep windows and skylights clean and unobstructed.

***Install timers*** on heating and lighting controls, automatic movement sensors help to ensure that lights are not left burning in empty rooms and corridors. Use a timer or photo-sensor to ensure external lights are off during daylight hours.

***Implement a 'wash on request' policy for towels***

***Install small sized kettles in all bedrooms***

***Provide environmental pamphlets for guests*** outlining the efforts you have taken to become sustainable and requesting that guests make efforts to minimise the environmental impact of their visit.

***Buy locally*** - visitors will be particularly thrilled to try local produce – a locally sourced menu is something to boast about. The same principles apply to other goods besides food. From tourist souvenirs and gifts, to mundane consumables for your guest rooms and office, locally supplied products and services will normally afford many benefits in terms of delivery, speed of response and accountability.

***Buy recycled and environmentally responsible goods*** - by using clearly branded environmentally responsible products and recycled goods (such as paper towels and toilet rolls), you will not only be supporting environmental sustainability, you will also be showing your customers that you care about the environment. In a world where tourist visitors are increasingly citing environmental responsibility as a major factor in their decision making process, it makes good sense to make sure people know what efforts you are making.

**© Cymdeithas Eryri – Snowdonia Society 2007**